pp Tachwedd 24.qxp_Layout 1 05/11/2024 10:51 am Page 1

Pris: 50c

# Papur Pawb

Tachwedd 2024 Rhif 503




tud 4/5 Ysgol Tal-y-bont
tud 7 Fy Hoff Ffoto
tud 9 Ymweliad Frank Skinner
tud 12 Marathon

# Mrs Jones Y Gegin

Ar bnawn Iau y 24ain o Hydref daeth llond y Neuadd Goffa o blant ac oedolion i ddymuno'n dda i Jen, neu fel mae'n cael ei hadnabod gan bawb, Mrs Jones Y Gegin, ar ei hymddeoliad. Mae wedi bod yn gogyddes yn Ysgol Gynradd Tal-y-bont ers 38 o flynyddoedd. Diolchodd Mr Hefin Jones iddi am ei gwasanaeth di-flino i'r ysgol ac i'r gymuned ehangach. Roedd Mr Jones yn amcangyfrif ei bod wedi bwydo miloedd o blant dros y blynyddoedd. Cafwyd cân bwrpasol gan gôr yr ysgol yn disgrifio'r holl fwydydd blasus yr oedd Mrs Jones wedi paratoi. Daeth Mrs Myfanwy James ymlaen i siarad am y cyd-weithio hapus a fu rhyngddynt am flynyddoedd lawer. Cafwyd atgof gan Efa Saunders-Jones yn disgrifio amser cinio fel uchafbwynt y diwrnod ysgol! Cafwyd araith gan Jen yn olrhain rhai straeon difyr am ei hamser yn yr ysgol a diolchodd i bawb am yr holl ddymuniadau da cyn iddi dorri'r gacen ddathlu a wnaethpwyd gan Susan Rowlands. Ar ôl cyflwyno anrheg hyfryd o gelfi gardd i Jen, mwynhawyd te a chacennau a baratowyd gan aelodau'r Gymdeithas Rhieni a chyn-rieni. Diolch yn fawr, Mrs Jones a mwynhewch eich ymddeoliad.






# Dathlu Calan Gaeaf

Roedd Neuadd Goffa Tal-y-bont dan ei sang ar bnawn Sul 27 Tachwedd gyda corachod, gwrachod ac ellyllod rhif y gwlith yn mwynhau dathlu Calan Gaeaf. Diolch yn fawr i Gylch Meithrin Tal-y-bont am drefnu'r noson. Wele Harri Williams, Maesyderi, yn arddangos ei dalentau creadigol gan ennill y wobr am gerfio'r bwmpen orau a Lily Bradley'n cipio'r wobr am y wisg orau yng nghategori dan 4 oed.



## Papur Pawb

**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**Parsel Henllys:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Cathryn Lloyd-Williams
**cat_yfoel@hotmail.com**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwys-fach/Ffwrnais:**
Lona Mason
lonaacrobyn@btinternet.com
**07507 652092**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

**Cadeirydd:**
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
**832697**

**Is-gadeirydd:**
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
**832773**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Helena O Sullivan, Bont-goch
**07812 994 008**

**Dylunio:**
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

**Casglu'r Papur:**
Gwenllian ac Arvid Parry-Jones

**Dosbarthwyr:**
Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon; John Evans; Innes Heron

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

CYMRAEG

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan…
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)


## Golygyddion

Golygydd y rhifyn hwn oedd Helen Jones gyda Siwan a Lynn a Ceri'n dylunio. Diolch iddynt.

Rhian (rhian.evans@tiscali.co.uk) a Catrin (catrinssj@gmail.com) fydd yn golygu rhifyn Rhagfyr.

Y dyddiad cau yw 6 Rhagfyr a bydd y papur ar werth ar 13 Rhagfyr.



"Dw i wedi safio deg ceiniog hyd yma!"


**Adweitheg**
(Reflexology)
**Bethan Ifan – Aberystwyth**
**07375 422 608**






**Salon Leri**
*Pob agwedd o drin gwallt gan Richard*
*10am-7pm Llun-Gwener*
*(01970) 832 674*


## Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth

Mr Richard Morgan, Aberystwyth, oedd y gŵr gwadd yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn festri capel Rehoboth ar brynhawn Mawrth, 8 Hydref. Yn 2021 cyhoeddwyd ganddo y llyfr *D J James - ei fywyd a'i ddylanwad* a dyna oedd testun sgwrs Mr Morgan yn ystod y prynhawn. Ganwyd David John James yn 1887 yn Llundain ond bu'r teulu'n byw am gyfnod ym Mhontrhydfendigaid pan oedd ef yn fachgen. Dychwelyd i Lundain a wnaeth yn ddiweddarach i ofalu am fusnes laeth y teulu a threuliodd weddill ei fywyd yno. Bu'n ddyn busnes llwyddiannus drwy gydol ei fywyd ac ar un adeg roedd yn perchen tair ar ddeg o sinemâu yn Llundain. Elwodd nifer o sefydliadau yng Nghymru ar ei haelioni yn ystod ei fywyd gan iddo roddi symiau sylweddol o arian iddynt. Sefydlodd Ymddiriedolaeth Pantyfedwen yn Aberystwyth, yn ogystal ag Eisteddfodau Pantyfedwen a gynhelir bob blwyddyn ym Mhontrhydfendigaid, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan. Bu farw yn 1967 ac fe'i claddwyd gyda gweddill ei deulu ym mynwent Ystrad Fflur. Diolchwyd i Mr Morgan am hanes diddorol iawn am fywyd a gwaith Syr David James, ac yna mwynhawyd y te a baratowyd gan Bethan Davies a Non Griffiths.





**TYNNU YR ARAD**
Cip yn ôl ar waith Cwmni Theatr Arad Goch ers 1989.

Cwmni Theatr Arad Goch

*Dydd Sadwrn Tachwedd 30ain am 3yp yng Nghanolfan Arad Goch*



Mae Jeremy Turner, un o sylfaenwyr Cwmni Theatr Arad Goch, newydd ymddeol ar ôl 35 mlynedd fel Cyfarwyddwr Artistig y cwmni. I nodi'r achlysur byddwn yn cynnal prynhawn o sgwrsio, hel atgofion, a chyflwyniad gan Jeremy gyda lluniau rhai o'r cynyrchiadau.

Bydd lluniaeth ysgafn a diodydd ar ôl y cyflwyniad a mwy o amser i sgwrsio.

***Hoffem eich gwahodd i ddigwyddiadau'r diwrnod yng Nghanolfan Arad Goch gan ofyn yn daer i chi ymateb yn fuan ar ebost i post@aradgoch.org neu ffonio 01970 617998 erbyn 8/11/24, gan fod llefydd yn brin yn y Ganolfan.***


**Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.**

# Dyddiadur

**TACHWEDD**

**10** **Gwasanaeth Sul y Cofio** 10.45 Neuadd Goffa Tal-y-bont
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Gwasanaeth Sul y Cofio
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.15 Gwasanaeth Sul y Cofio

**12** **Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** 2 'Trin a thrafod hen bethau' (Cyril Evans)

**14** **Bingo** 7.30 Wildfowler

**17** **Bethel** 10 Uno â Seion, Delyth Morgans Phillips
**Rehoboth** 2 Rhidian Griffiths
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**18** **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** 7.30 'Creu Cardiau Cyfarch' (Gillian Olewicz)

**20** **Bore Coffi** 10.30–12 Neuadd Llanfach

**21** **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 7 Gweddi Hwyrol

**22** **Cwis** 8 Wildfowler

**24** **Bethel** 2 John Tudno Williams (C)
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**28** **Bingo** 7.30 Wildfowler

**30** **Ffair y Neuadd Goffa** 2 Neuadd Goffa Tal-y-bont

**RHAGFYR**

**1** **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**7** **Cinio Nadolig Henoed Llangynfelyn** 12.30 Wildfowler

**8** **Bethel** 6 Gwasanaeth Cymunedol Merched y Wawr
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

**10** **Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth** 2 'Edrych yn ôl ar ei yrfa' (Arvid Parry Jones)

**12** **Bingo** 7.30 Wildfowler

**13** **Cwis** 8 Wildfowler

**BOB WYTHNOS**

**Cletwr** Dydd Mawrth 1–4 'Clonc a Gweu'

# Pobl a Phethe



Llongyfarchiadau i Leri Hughes, Ceunant, Tal-y-bont ar ei phriodas â Jack Paull ar 27 Medi. Cynhaliwyd y dathliad yn Cwrt Hensol, ger Caerdydd, ac mae'r ddau wedi ymgartrefu yng Nghaerfyrddin.

**Dyweddio**
Llongyfarchiadau i Ioan Gwyn, Maesgwyn Tal-y-bont, sydd newydd dyweddïo gydag Angharad Lewis o Gaerffili.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Mignon Rowlands, Glanhaul, Tre Taliesin, a fu farw ar ddiwedd mis Mehefin.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i deulu'r diweddar Sadie Jenkins, gynt o Faes-y-deri a fu farw'n ddiweddar.

**Ar y ffordd**
Llongyfarchiadau i Ella Thomas, Rhosgwyn, Tal-y-bont ar basio ei phrawf gyrru yn ystod mis Awst. Cadwa'n saff ar y ffordd Ella!

**Symud tŷ**
Mae Maureen Jenkins, gynt o Aberceulan, Tal-y-bont wedi symud i fyw i Stonehaven yn yr Alban i fyw yn agosach at ei theulu. Bu Maureen yn byw yn y pentref am dros 40 mlynedd. Dymunwn pob hapusrwydd iddi yn ei chartref newydd.

**Cydymdeimlad**
Bydd llawer o ddarllenwyr Papur Pawb yn cofio'r Parchedig Robert Jones, cyn-weinidog Rehoboth a'r Garn, a symudodd gyda Rhian ei wraig i Wrecsam ychydig flynyddoedd yn ôl. Trist iawn yw cofnodi iddo farw'n dawel yn Ysbyty Maelor Wrecsam ar 18fed Hydref ar ôl cystudd hir. Rydyn ni'n cydymdeimlo'n ddwys â Rhian, ei blant Siôn, Owain a Cerian a gweddill y teulu.

**Tipyn o Sioe**
Bydd Ysgol Gyfun Penweddig yn cynnal sioe 'Joseph' yn ystod mis Tachwedd. Pob lwc i blant yr ardal fydd yn cymryd rhan. Gobeithio y cawn glywed mwy am y perfformiad yn ein rhifyn nesaf.

**Serennu**
Pob lwc i Sam Ebenezer sydd newydd gwblhau cyfnod yn perfformio yn 'Choir of Man' yn y West End yn Llundain. Bu'n aelod o'r cast am dros dwy flynedd ac yn ystod y cyfnod hwnnw bu nifer o drigolion yr ardal yn ddigopn ffodus i brofi'r wefr o weld Sam yn perfformio. Dymuniadau gorau iddo wrth symud ymlaen i bennod newydd yn ei yrfa.

**Croeso i'r Pentref**
Dymuniadau gorau i Sion Clifton sydd wedi symud i'w gartref newydd yn Nôl Pistyll yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Hefyd, croeso mawr i Hillary Tallis sydd wedi ymgartrefu yn Yr Efail, ac i Dawn Wainwright sydd erbyn hyn yn byw yn ôl yn y cartref lle'i magwyd, sef Felinfach, Tal-y-bont.

**Swydd newydd**
Llongyfarchiadau mawr i Steffan Thomas, Glasyddol, Tal-y-bont, sydd wedi dechrau swydd newydd gyda chwmni OFI yn Llundain fel Dadansoddwr Data Hinsawdd. Mae'n swnio'n swydd ddiddorol a braf fyddai clywed mwy am dy hanes cyn hir.

**Croeso nôl**
Braf gweld Prys Hughes a Ryan Hughes nôl yn y pentref wedi cyfnod i ffwrdd yn Awstralia a Seland Newydd. Bydd Bedwyr Siencyn yn anelu at ynysoedd Seland Newydd cyn hir ac yntau'n mynd i gneifio.

**Hoci dros Gymru**
Dymunwn pob lwc i Jane Bailey, Troedrhiwseiri, Bontgoch, sy'n anelu am ynysoedd Seland Newydd ar ddechrau Tachwedd lle bydd yn cystadlu yn nhîm cenedlaethol hoci 'veterans' ym mhencampwriaethau hoci'r byd.

**Babi Newydd**
Llongyfarchiadau mawr iawn i Dilwyn a Ffion ar enedigaeth merch fach, sef Lois Lloyd Jones. Aelod newydd i deulu Pensarn, Tal-y-bont.

**Gwellhad Buan**
Dymunwn wellhad buan i Barbara Madden, 13, Maesyderi, Tal-y-bont, ac i John Cook, Glanceulan, Tal-y-bont sy'n derbyn triniaeth ym Mronglais ar hyn o bryd.

**Cydymdeimlad**
Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at deulu'r diweddar Tudor Evans bu farw yn ddiweddar yn ystod y ddamwain tren ofnadwy ger Llanbrynmair. Cofion at Sandra Sykes a'i theulu, sef chwaer Tudor, sy'n byw yn Bryndyfi, Tre Taliesin.

**Swydd newydd**
Pob hwyl i Cian Llewellyn, gynt o Is y Coed, Tal-y-bont yn ei swydd newydd gyda Coetir Anian, yn ardal Glaspwll.

Nôd y prosiect yw adfer cynefinoedd a rhywogaethau a chysylltu pobl gyda natur a mannau gwyllt.

Mae Cian yn edrych ymlaen at ei rol fel rheolwr cyfathrebu a threftadaeth gyda'r elusen.

Gobeithio y bydd cyfle i'w holi ymhellach cyn bo hir.

**Plannu Coed**
Mae grŵp Coed Tal-y-bont yn cwrdd bob bore Sadwrn er mwyn gofalu am goed ifanc lleol. Yn ystod mis Tachwedd byddwn yn clirio rhedyn a gwair ym Moel Golomen. Croeso i bawb, tecstiwch Linda ar 07507464077.

**Cletwr**
Bydd Juliet Regan, Tre Taliesin, yn cynnal sgwrs ar fywyd a gwaith ei mam, Frances Moore, yn Cletwr ar nos Lun, 12 Tachwedd am 7yh. Bu'n arloeswraig ym maes tirfesur pridd ac mae ei gwaith yn dal i fod yn sail sylfaenol i'r wyddoniaeth heddiw. Pris mynediad yw £5, gyda'r elw yn mynd at Cletwr. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael.

Bu Frances a'i gŵr, Basil Moore, yn byw yn Felin Penpompren, Tal-y-bont am nifer dda o flynyddoedd ac mae eu hôl i'w weld yn y coed arbennig a blannwyd yno, megis y goeden Diwlip, coeden Hances, a choeden Gingko.

**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach: Gwasanaeth Diolchgarwch**
Aethpwyd â rhoddion o'r gwasanaeth diolchgarwch i Hwb Cymunedol Penparcau lle roedd y staff yn falch iawn o'i dderbyn ar gyfer eu Caffi Cymunedol a'i ddosbarthu i'r siop fwyd ar gyfer yr anghenus.

Ac hefyd rhoddwyd arian y casgliad tuag at Elusen 'Tir Dewi' sydd yno i gynorthwyo ffermwyr Cymru. Sefydlwyd Tir Dewi yn 2015 fel llinell gymorth am ddim i gynghori teuluoedd ffermio yn ardal Gorllewin Cymru ac erbyn hyn mae'r gwasanaeth yn ymestyn ar draws Cymru. Gweler https://tirdewi.wales/ am fanylion pellach.

**Gwasanaeth Sul y Cofio**
Cynhelir Gwasanaeth Coffa, Eglwysfach ar Ddydd Sul Tachwedd 10fed am 9.15 y bore, gan gychwyn wrth y Gofeb Rhyfel y tu allan i giât yr eglwys gyda gosod torchau Cymunedol.

**Gwasanaeth Carolau**
Cynhelir Gwasanaeth Carolau'r Nadolig yn Eglwys Eglwysfach ddydd Sul Rhagfyr 15fed am 4 o'r gloch. Unwaith eto mae Gareth ac Amelia wedi cynnig eu lletygarwch i gynulleidfa'r Gwin Cynhesol a mins peis yn Ynys-hir ar ôl y Gwasanaeth.

pp Tachwedd 24.qxp_Layout 1 05/11/2024 10:51 am Page 4



*Creu Cymeriadau*



*Creu Cymeriadau*



*Gweithdy Tir Canol*



*Mrs James yn arwain y Teyrngedau i Mrs Jones y Gegin*



*Tîm Rygbi*



*Gŵyl Aml-sgiliau*




*Ymweliad Mr Urdd*



*Ymweliad PC Hanna*




*Gwasanaeth Diolchgarwch*

pp Tachwedd 24.qxp_Layout 1 05/11/2024 10:51 am Page 5

# Ysgol Tal-y-bont




*Mrs Jones y Gegin a disgyblion yr Ysgol*

## Gwasanaeth Diolchgarwch

Roedd hi'n hyfryd cael croesawu cymaint o rieni a ffrindiau'r ysgol i Gapel Bethel unwaith eto ar gyfer gwasanaeth diolchgarwch blynyddol a hoffwn ddiolch i gymaint ohonoch oedd wedi dod i gefnogi. Hoffwn ddiolch yn fawr i swyddogion y capel am y croeso ac yn enwedig i Mr Ieuan Morgan am bob cymwynas. Diolch o galon i Mrs Falyri Jenkins hefyd am gyfeilio ac am ein cynorthwyo gyda'r eitemau cerddorol. Diolch o galon i'r staff am baratoi'r gwasanaeth ac i'r plant am berfformiadau graenus. Cafwyd anerchiad pwrpasol ac effeithiol gan Jenny Jenkins, un o ffrindiau da yr ysgol, am ei gwaith gyda'r Hwb ym Mhenparcau er mwyn helpu pobl yn ein cymdeithas ac roedd hi'n hyfryd gallu trosglwyddo llond car o nwyddau a dros £120 i'r elusen ar ddiwedd y gwasanaeth. Diolch o galon i bawn oedd wedi gallu cyfrannu.

A diolch arbennig i Jenny am y llysiau a'r ffrwythau, mae pob dosbarth wedi bod yn gwella eu medrau coginio yn ddiweddar.

## Ysgol Gelfyddydol

Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth ennill grant sylweddol gan Gyngor y Celfyddydau i hybu agweddau o'r Celfyddydau Mynegiannol gyda'r disgyblion. Penderfyniad yr ysgol oedd defnyddio'r grant i hybu medrau llafar Cymraeg plant y Dysgu Sylfaen. Yn ystod y tymor yma, rydym wedi bod yn cydweithio gyda Jo Munton o Gwmni Theatig Vagabondi er mwyn creu cymeriadau amrywiol a defnyddio'r cymeriadau hynny i greu storïau syml ac effeithiol. Bydd y bartneriaeth yn barhau yn ystod mis Tachwedd ac rydym yn edrych ymlaen at ddangos y gwaith i'r rhieni cyn diwedd y mis.

## Ysgol Eco

Yn ystod y mis cawsom weithdy arbennig gan Naomi a Jane o Gynllun Tir Canol. Mae'r grŵp yma'n fywiog iawn yn ein cymuned ac yn hyrwyddo ffyrdd o wella'r amgylchedd i ni gyd. Cawsom dipyn o syndod bod cymaint â 25,000 o goed wedi eu plannu ar ben uchaf Cwm Leri yn y gobaith bydd hynny yn y pendraw yn atal llifogydd ar waelod y cwm. Tra bod un grŵp yn trafod defnydd tir gyda Naomi, roedd grŵp arall yn dysgu am wahanol briddoedd gyda Jane gan ddysgu bod tir yr ysgol yn gymysgedd o wahanol briddoedd oedd yn dda ar gyfer tyfu llysiau a ffrwythau. Gwelwyd llawer o fwydod hefyd, felly roedd y plant wrth eu boddau.

## Siarter Iaith – Diwrnod T Llew Jones

I gyd-fynd gyda'n hymrwymiad i'r Siarter Iaith, trefnodd y Criw Cymraeg brynhawn difyr iawn i ddathlu Diwrnod T. Llew Jones eleni.

I ddathlu Diwrnod Coch Gwyn a Gwyrdd eleni cafwyd ymweliad arbennig ac annisgwyl gyda neb llai na Mr Urdd yn gwibio heibio i ddweud "Helo"! Roedd ymateb y plant yn hyfryd a Mr Urdd wrth ei fodd yn cael cwrdd gyda nhw. Roedd y Criw Cymraeg hefyd wedi trefnu i Mrs Jones y Gegin goginio pice ar y maen i ni gyd – blasus iawn!

## Ysgol Iach – Rygbi

Am y tro cyntaf ers blynyddoedd aeth tîm o blant Blwyddyn 3 a 4 i gystadlu yng nghystadleuaeth Rygbi Tag yr Urdd. Ac am berfformiad gan y criw brwdfrydig yma. Curwyd Ysgol Gymraeg Aberystwyth, Ysgol Llwyncoch, Ysgol Plascrug, Ysgol Bro Teifi ac Ysgol Aberporth cyn colli yn y rownd gyn-derfynol o 4 cais i 3 yn erbyn Ysgol Aberaeron. Da iawn chi blant am gystadlu mor frwd ac am sgorio cymaint o geisiau gwych.

## Hoci

Mae llwyddiant y tîm hoci'n mynd o nerth i nerth. Ar ddiwedd mis hydref mae'r tîm yn dal yn ddi-guro! Mae eu sgiliau'n datblygu'n dda a phawb yn gwneud eu gorau i gyd-chwarae. Diolch yn fawr i'r staff am fod yng ngofal y plant a diolch yn fawr i'r rhieni am gefnogi.

## Gŵyl Aml-sgiliau

Rydym yn ffodus iawn o gael ein gwahodd i wyliau aml-sgiliau'n aml dros y flwyddyn. Y tro yma Blwyddyn 5 a 6 gafodd fynd i Brifysgol Aberystwyth i ymarfer gwahanol gampau er mwyn gwella eu medrau. Roedd pawb wedi cael amser da ac wedi cael cyfle i gyfarfod eto gyda ffrindiau o ysgolion cyfagos.

## Pont yr Wylfa

Gweithgaredd ddiddorol a drefnwyd ar y cyd gydag ysgol Craig yr Wylfa yn ystod y mis oedd Diwrnod Lles. Yn ogystal â chael cyfle i sgwrsio a chwarae, daeth PC Hannah atom i drafod agweddau pwysig o gadw'n ddiogel o gwmpas y tŷ. Roedd ymateb y disgyblion yn arbennig ac roedd PC Hannah yn falch iawn o gyfraniad pawb. Dewch nol atom yn gyflym!

NICEIC APPROVED CONTRACTOR
**Alun Davies**
Contractiwr Trydanol
**M** 07703 169813
Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
**E** alun.davies142@btinternet.com



*Grŵp meimio CFfI Tal-y-bont a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth*

# CFfI yn yr Eisteddfod!

Cafodd Eisteddfod Clwb Ffermwyr Ifanc (CFfI) Ceredigion ei chynnal ym Mhontrhydfendigaid ar 11 a'r 19 o Hydref, gyda nifer o aelodau talentog CFfI Tal-y-bont yn perfformio ar y llwyfan mewn amryw o gystadlaethau.

Ar noson gyntaf y cystadlu ar 11 o Hydref, gwelwyd nifer o aelodau yn cymryd rhan yn y grŵp meimio. Roedd yr aelodau wedi bod yn brysur iawn dros yr wythnosau diwethaf yn ymarfer ac ymbaratoi i berfformio ar y llwyfan yn y gystadleuaeth meimio i'r thema anifeiliaid. Penderfynwyd dilyn y trywydd '101 Dalmations' a meimio i ganeuon poblogaidd megis 'Dau Gi Bach', 'Hound Dog' a 'Puppy Love' i enwi rhai. Jona Williams oedd yn gyfrifol am ddewis y gerddoriaeth drwy ddod ag amrywiaeth o ganeuon yn ymwneud â chŵn at ei gilydd i greu set o bum munud. Daliodd perfformaid y clwb lygad y beirniad Alun Elidyr a llwyddon nhw i gyrraedd yr ail safle allan o bymtheg o glybiau Ceredigion a wnaeth gymryd rhan - llongyfarchiadau enfawr iddyn nhw i gyd! Diolch o galon i Beca Williams ac Elen Pencwm am eu hamser, y coreograffi a'r ymarferion wythnosol; roedd pob ymdrech yn amlwg wedi talu ar ei ganfed wrth i'r grŵp ddisgleirio ar y noson. Mae'n wych gweld gwaith caled yn dwyn ffrwyth!

Yna, ar 19 o Hydref, daeth llwyddiant eto! Daeth Beca Williams i'r brig yn yr unawd o sioe gerdd 18-28 a bydd hi'n mynd ymlaen i gynrychioli y clwb yn Eisteddfod CFfI Cymru. Hefyd yn cynrychioli yn Eisteddfod CFfI Cymru bydd Beca a'i chwaer, Cadi Williams, ar ôl ennill y gystadleuaeth ddeuawd yn llwyddiannus. Chwiorydd talentog dros ben a dymunwn y gorau iddynt!

Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran, ac edrychwn ymlaen at fwy o lwyddiannau yn y dyfodol!

Bu mis Hydref yn un llawn digwyddiadau i'r CFfI. Ar 15 Hydref trefnwyd noson bingo gan y clwb, ac roedd y noson yn llawn hwyl a chyffro i bawb a fynychodd.

Y digwyddiad nesaf oedd noson ffilm ar 22 Hydref, lle bu'r aelodau yn gwylio ffilm ac ymlacio gyda'r awyrgylch yn llawn cyfeillgarwch a chwerthin.

*Ela Jones*

# Yn Naturiol

**Gwrych neu perth neu clawdd neu sietyn? Beth yw eu hoed?**

'Bu cyfnod pan nad oedd na chlawdd na pherth rhwng Aberystwyth a Thal-y-bont, ond daeth y Chwyldro Amaethyddol i newid pethau' o Bwrlwm Sioe gan Hefin Llwyd. Anodd dadlau efo hyn ond mae rhai perthi yn hŷn na'i gilydd.

Bu cyfnod lle roedd y ffermwyr cyntaf, o leiaf 4000 o flynyddoedd yn ôl, yn amddiffyn eu gwartheg rhag eirth, bleiddiaid a lynx. Mae tystiolaeth lleol yn dangos mai clawdd pridd a ffoes oedd yn amgau lloc. Mae'n bosib y defnyddir ffensys cyll a drain hefyd, o ystyried yr hadau a chnau canfodwyd. Tybed os mae 'rhein oedd ein gwrychoedd cyntaf? Wedi torri coed a chreu caeau bob siap ar raddfa bychan roedd y ffermwyr cyntaf, mewn tirwedd efo coedwigoedd a chorsydd helaeth, yn edrych dros cymoedd ag afonydd byrlymus.

Erbyn Oes yr Haearn mi roedd ffermwyr yn tyfu haidd, ceirch a gwenith yn ogystal â chadw gwartheg yn ôl cloddfa archaeolegol yn Glanfred. Roedd yr angen am derfynnau caeau effeithiol yn cynnyddu.

Dros y blynyddoedd mi ddaeth y Chwyldro Amaethyddol a deddfau i amgàu tir, y cyntaf yn 1603, a chreuwyd mwy o gaeau a gwrychoedd ac anifeiliad trymach. Credir y plannwyd dros 200,000 milltir o wrychoedd rhwng 1750 a 1850, mwy nac yn y 500 mlynedd blaenorol. Drain duon, drain gwynion a choed cyll plannwyd yn bennaf ac mewn rhesi syth, yn anhebyg i'r rhai hynaf.

Byddai rhai hen wrychoedd wedi ffurfio rhan o'r rhai 'newydd' mewn mannau.

**Beth sy'n ein helpu i rhoi oed ar wrych?**

Un theori ydy yr hynaf ydy'r gwrych yr mwyaf o fathau o goed sydd ynddi, hyd at 12 rhywogaeth. Rhaid cyfri nifer y rhywogaethau (ac eithrio ysgawen) o goed mewn 30 medr a lluosi'r rhif yna x 100 e.e. collen, drain duon, drain gwynion a chelyn, sef 4 x 100 = tua 400 mlwydd oed. Dros y blynyddoedd mae bywyd gwyllt yn ychwanegu hadau coed eraill i'r gwrych ac yn araf mae'n cyfoethogi. Rhaid deall



rhywfaint am hanes y gwrych, ac edrych ar blanhigion sy'n tyfu wrth ei droed. Y rhai sy'n perthyn i goedwig e.e. clychau'r gôg, suran y coed fyddai'n dangos oedran mawr. Datblygai'r theori yma yn Lloegr ac er nad yw'n berffaith mae'n rhoi syniad ini.

Mae rhai gwrychoedd diddorol ger Pentrebach efo 10 mewn 30 medr, felly o bosib maent yn fil o flynyddoedd oed. Mae llawer o wrychoedd yr ardal efo tua 6 math o goed felly tua 600 mlwydd oed. Cewch un o wrychoedd hynaf Ceredigion o amgylch Eglwys Llanbadarn Odwyn yn ardal Llangeitho efo dros 13 rhywogaeth mewn 30m.

Yn ein hardal ni mae rhai coed anghyffredin yn y gwrychoedd fel aethnen (Populus tremula) Aspen, a'i dail crwn, crynedig a pisgwydden (Tilia) Lime, efo dail siap calon, a blennir yn aml fel addurn.

Mae patrwm caeau a siap y gwrych neu wal hefyd yn rhoi awgrym o oed e.e. caeau bychan bob siap o waliau cerrig yn Ardudwy, Gwynedd o'r ffermwyr cynnar a chaeau Morfa Esgob yn Llannon mewn stribedi hir o'r canol oesoedd.

Yn ddi -os erbyn hyn mae ein gwrychoedd yn rhan bwysig o gymeriad amaethyddol y fro ac yn plethu hanes, amaeth a natur. Chwiliwch yn eich clawdd am nodweddion eraill fel hen stondin laeth neu carreg milltir sy'n ychwnegu at y stori.

*Liza Tomos*

Parhad yn rhifyn Rhagfyr

# fy hoff ffoto



**Dyma ddechrau ar gyfres newydd yn Papur Pawb pryd y bydd ffotograffwyr lleol yn dewis ei hoff ffotograff. Pe baech am gyfrannu ffotograff i'r gyfres cysylltwch â'r golygydd cyffredinol (golygydd@papurpawb.com).**

Ein ffotograffydd cyntaf yw **Iolo ap Gwynn**, Garreg Wen, Tal-y-bont, sydd wedi ymddiddori mewn ffotograffaeth ers blynyddoedd. Dyma ei lun gwych, 'Machlud dros y figyn', a dyma'r rheswm y tu ôl i'w ddewis.

"Tynnwyd y llun ar y 10 fed o Ebrill 2019. Dim ond ar ddau ddiwrnod bob blwyddyn gellir cael y llun hwn – h.y. os yw'r tywydd yn ffafriol. 10fed o Ebrill a'r 2il o Fedi. O'n tŷ ni, pan welwn yn haul yn machlud drwy'r Dderwen hon gwyddom y cawn weld y machlud dros y gorwel bob dydd tan yr 2il o Fedi (tywydd yn caniatáu, wrth gwrs). Mae'n nodi dyfodiad yr Haf neu'r Hydref. Camera: Canon EOS 5D Mk4 gyda lens EF 100-400 f/4.5-5.6L IS II USM +1.4x III (1/500 f8)"

## Ysgol Tal-y-bont 1960



Ymateb i lun a ymddangosodd yn Papur Pawb Hydref 2024 o blant Ysgol Tal-y-bont 1960 ydwyf, a anfonwyd gan Glyn Harbour a arferai fyw yn Dwylan, Tal-y-bont, ac yn un o'm cyd- ddisgyblion. Cofiaf Glyn yn foi hyfryd, bonheddig bob amser, ac yn ffrindiau mawr a'm brodyr. Wel y cais oedd i gael enwau'r plant yn y llun a dyma nhw, dim ond un nad wyf yn cofio ei enw yr olaf yn y rhes dop, dwi'n meddwl mai bachgen o Bontgoch oedd e.

**Rhes gefn:** Miss Lilian Edwards, Miss Ruth Jones, Meurig Jones, Raymond Smith, Dilwyn Griffiths, Simon Hughes, Roy Davies, Paul Read, Simon Read, Gwyndaf James, Myrddin Jones, Brynmor Smith, Tony Jones, Michael Williams, ?

**Trydydd Rhes:** Rita Jones, Gwen Morgan, Margaret Williams, Joan Roberts, Ann Thomas, Margaret Morgan, Vincent Anderson, Glyn Harbour, Christine Williams, Beryl Evans, Llinos West, Alun Davies, Daniel Jones Pierce, Geraint Evans, Ithel Jones.

**Ail Res:** Dafydd Jenkins, Jimmy White, William Jones, Stephen Jones, Richard Morgan, Eric Royle, Einion Roberts, Karen Davies, Margaret Hughes, Linda Hughes, Ann Davies, Shan Edwards, Gaenor James.

**Rhes gyntaf:** Dilwyn Jenkins, Ann Morgan, Raymonda Thomas, Sian Jones, Mary Smith, Ann Barratt, Madeline Read, Margaret Susan Williams, Brian Davies. Atgofion hapus iawn o'r cyfnod yn Ysgol Tal-y-bont.

*Rita Llwyd*

## Llythyr

Annwyl ffrindiau,

Carwn ddiolch yn fawr iawn i staff, rhieni, ffrindiau, disgyblion a chyn-ddisgyblion Ysgol Tal-y-bont am eu cefnogaeth a chyfeillgawrch yn ystod y 38 mlynedd bum yn gweithio fel cogyddes yno. Diolch hefyd am y parti ffarwél bendigedig a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa i nodi fy ymddeoliad, am y blodau hyfryd a'r anrhegion a'r cardiau niferus. Rwy'n gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr iawn.

Hoffwn hefyd ddymuno pob hwyl i fy olynydd, sef, Natalie Evans, ar ei phenodi i'r swydd yn fy lle.

Gyda diolch

*Jen Jones*

Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN



Argoed, Y Ferwig, Aberteif, Ceredigion
(01939) 61 5085. Mobile: (0491) 786999

# Frank Skinner yn Eglwysfach

Ar ddydd Iau 3ydd Hydref bu Frank Skinner, y digrifwr adnabyddus, yn perfformio i theatr llawn yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Y diwrnod wedyn roedd ganddo gynulleidfa o bump neu chwech yn Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach. Aeth Frank ar bererindod arbennig i Eglwysfach i ymweld â rhai o'r lleoedd a oedd yn gysylltiedig ag R S Thomas, a fu'n Ficer Eglwysfach rhwng 1954 a 1967.

Mae Frank yn frwd dros farddoniaeth ac mae ganddo bodlediad barddoniaeth adnabyddus. Bu Frank yn siarad ag Alison Swanson, un o wardeiniaid eglwys Sant Mihangel, a oedd yn adnabod R S Thomas pan oedd yn tyfu i fyny yn Eglwysfach, ac yn ei gofio fel dyn caredig ond difrifol a oedd yn caru bywyd gwyllt ac a oedd yn frwd dros wella ei Gymraeg sgyrsiol.



Roedd Frank yn edmygu'r eglwys, yn enwedig y gwaith coed enwog wedi'i baentio'n ddu, yn sgwrsio â phlwyfolion dros de a bara brith, a darllenodd ddwy o gerddi R S Thomas o'r pulpud ('Gweddi' a 'Y Capel'). Edrychodd ar yr Hen Ficerdy ('Ynys Einion') a'r Stafell Haearn cyn sefyll efo phlwyfolion am ychydig o ffotograffau ('Rho i mi ddeg munud mewn colur', protestiodd). Yn rhy gyflym o lawer roedd y sioe drosodd ac roedd Frank ar y ffordd eto i'w leoliad nesaf. Gadawodd neges yn llyfr yr ymwelwyr: 'Rwy'n caru'r eglwys hon, bron cymaint ag yr oeddwn yn caru'r bobl a'i rhannodd â mi.' Gobeithiwn y bydd yn dychwelyd.

# Pum Diwrnod o Ryddid

Mae criw bach o'r ardal yn teithio Cymru ar hyn o bryd efo'r sioe Pum Diwrnod o Ryddid, Cwmni Theatr Maldwyn. Mae Claire Jones, Ffwrnais a Huw Lewis, Tre'r Ddôl yn chwarae cymeriadau y bonedd a Rhian Nelmes, Tre'r Ddol yn ran o'r werin. Mae Anwen Howard, Tal-y-bont hefyd yn ran o'r cwmni yn helpu gefn llwyfan. Mae nhw wedi bod yn y Drenewydd, Aberystwyth a Rhosllannerchrugog, ymlaen nesa i'r Bala a Chaernarfon.



# Cletwr



*Gwledd Gymunedol yr Hydref*

Mae Calan Gaeaf wedi pasio felly mae'n hen bryd i ni feddwl am 'Ddolig! Mae stoc y tymor bellach ar y silffoedd, y mins peis cyntaf, siocledi, calendrau siocled a chardiau (Cymraeg a Saesneg). Brysiwch cyn i bopeth ddiflannu. Bydd ein Ffair Crefft 'Dolig traddodiadol ar y nos Wener 6ed o Ragfyr, 3.30-7.30 gyda llawer o stondinau, miwsig, mins peis (wrth gwrs) a gwin sbeislyd cynnes. Bydd stondin Cletwr yn Ffair y Neuadd Goffa hefyd, lle bydd cyfle ichi archebu eich hamperi, cig a llysiau ar gyfer y diwrnod mawr. Hoffwn rhoi gair o ddiolch i'r sawl wnaeth trefnu ein taith "cast neu geiniog" o gwmpas Tre'rddôl ar Nos Calan Gaeaf, ac i'r plant a rhieni aeth allan i godi ofn ar y trigolion.

Fel rwyf wedi dweud o'r blaen, mae ein rhaglen o ddigwyddiadau wedi bod yn dra wag eleni ers i Rachel symud ymlaen i borfeydd newydd. Ond braf yw gallu cyhoeddi erbyn hyn fod mwy yn digwydd, diolch i griw o wirfoddolwyr selog. Ychydig wythnos nôl cynhaliwyd Gwledd Gymunedol yr Hydref, wedi ei baratoi a gweini yn gyfan gwbl gan aelodau Bwrdd Cletwr. Eisteddodd bron 40 o bobl i lawr yn y caffi i joio pryd o fwyd blasus (tsili cig eidion neu fegan, wedyn crymbl ffrwyth a chwstard ynghyd â gwin a chwrw, a digon o sgwrs i godi'r to. Noson lwyddiannus yn ôl pawb, ac fe fydd mwy o bethau tebyg yn y dyfodol.

Yr arbrawf nesaf fydd noson ffilm ar nos Sadwrn 9fed o Dachwedd am 6.30, pryd y dangosir "Spirited Away", ffilm animeiddiedig gan Stiwdio Ghibli o Siapan. Bydd mynediad am ddim, ac mi fydd bar, hufen ia a phopcorn ar gael! Os bydd y noson yn llwyddiant, mae'n bosib y bydd mwy o nosweithiau ffilm yn y dyfodol.

Yna ar y 12fed o Dachwedd am 7yh, bydd sgwrs (yn Saesneg) gan Juliet Regan (Taliesin) ar fywyd a gwaith ei mam, Dr Frances Moore, yr arolygydd pridd arloesol. Mynediad £5, bydd bar, coffi a lluniaeth ysgafn ar gael.

Rydym wrthi'n trefnu mwy o ddigwyddiadau i'r gymuned, ond mae popeth yn dibynnu ar wirfoddolwyr. Ydych chi'n fodlon i helpu naill ai drefnu digwyddiad, neu helpu yn ystod digwyddiad? Cysylltwch â'r swyddfa, byddan nhw wrth eu boddau yn clywed gennych.

Cynhelir CCB Cletwr yn y Caffi ar 1af o Ragfyr, am 4yp.

Wedi dros 10 mlynedd, mae'n bryd inni feddwl am ddyfodol Cletwr, ac mae angen eich mewnbwn i'r trafodaethau. Cynhaliwyd cyfarfod agored yn ddiweddar, ac fe fydd mwy wedi'r Nadolig. Ond yn y cyfamser, a fyddech chi mor garedig a llenwi ein harolwg ar lein? Mae'r fersiwn Cymraeg ar https://bit.ly/3C055UG neu ewch i'r QR code are ich ffôn symudol. Diolch.

Gyda llaw, mae Tatws Tastus lleol o Gapel Bangor bellach yn y siop, mewn bagiau 5kg, newyddion da yn wir!




pp Tachwedd 24.qxp_Layout 1 05/11/2024 10:51 am Page 9

# Colofn Ben Lake AS



Mae'r dail yn prysur grino a'r dyddiau'n prysur fyrhau ond wrth i ni droi ein golygon at y gaeaf sydd i ddod, mae'n argoeli i fod yn dymor digon anodd ac ansicr i nifer o drigolion Ceredigion Preseli a thu hwnt.

Rydyn ni eisoes wedi clywed bod Llywodraeth Lafur y Deyrnas Gyfunol yn wynebu "penderfyniadau anodd" yn sgil twll du sylweddol yn ei chyllideb. Mae'r Llywodraeth wedi pwysleisio bod angen gwella cyflwr cyllid cyhoeddus, a dyna'r cyfianwhad a roddir dros dynnu'r Taliad Tanwydd Gaeaf wrth bawb, ag eithio'r pensiynwyr hynny sy'n derbyn Credyd Pensiwn.

Gwyddom o ffigurau'r Llywodraeth y bydd y penderfyniad hwn yn effeithio ar tua 400,000 o aelwydydd ledled Cymru. Yng Ngheredigion Preseli yn unig, bydd dros 21,188 o bensiynwyr yn colli eu Taliad Tanwydd Gaeaf y gaeaf hwn. Mae'r Taliad Tanwydd Gaeaf wedi bod yn ffynhonnell bwysig o gymorth i bensiynwyr yn ystod misoedd caled y gaeaf, ar adeg pan fo miliynau o bobl eisoes yn cael trafferth gyda chostau ynni cynyddol. Yn ogystal â hyn, mae'r penderfyniad yn effeithio'n arbennig ar ardaloedd gwledig fel ein un ni, lle mae'r rhan fwyaf o aelwydydd yn dibynnu ar olew neu nwy hylif i wresogi eu cartrefi. Nid yw'r mathau hyn o danwydd yn cael eu rheoleiddio yn yr un ffordd â nwy a gyflenwir o'r prif gyflenwad ac nid ydynt yn elwa o'r cap ar brisiau yn yr un ffordd.

Ni ddylai'r Llywodraeth fod yn gwthio pensiynwyr ar incwm sefydlog ac isel yn ddyfnach i dlodi tanwydd i dalu am fethiannau cyllidol San Steffan. Dyna pam y pleidleisiais yn erbyn cynlluniau'r Llywodraeth i dorri'r Taliad Tanwydd Gaeaf ym mis Medi, a pham y bydda i a fy nghyd aelodau Plaid Cymru yn galw am ei adfer fel rhan o Gyllideb yr Hydref.

Yn y cyfamser, mae Age Cymru yn cynnig cymorth i'r rheiny sydd ei angen a gallwch gysyllu gyda nhw'n uniongyrchol ar 0300 303 44 98 neu dros e-bost ar advice@agecymru.org.uk. Wrth gwrs, mae croeso i chi hefyd gysylltu â mi ar 01570940333 neu ar ben.lake.mp@parliament.uk.

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553



# Cwrdd Diolchgarwch Bethel

Cynhaliwyd oedfa llawn hwyl prynhawn Sul 20 Hydref pan ddaeth Edward Morus Jones atom i gynnal gwasanaeth diolchgarwch. Yn dilyn eitem hyfryd gan rai o blant yr Ysgol Sul fe'n harweiniwyd mewn oedfa o ddiolch gan Edward. Yr oedd y plant a'r oedolion wrth eu boddau gyda'i ffordd gartrefol a llawn hiwmor o gyflwyno'r neges.

Yn dilyn yr oedfa cynhaliwyd te prynhawn yn y Neuadd Goffa gyda phump bwrdd llawn o blant ac oedolion yn mwynhau'r ddanteithion.

Casglwyd pump llond bocs o nwyddau a chyfraniadau ariannol gwerth £225 ar gyfer Banc Bwyd Penparcau yn ystod yr oedfa.

Diolch i bawb fu'n gyfrifol am y trefniadau ac am hyfforddi'r plant. Diolch hefyd i Edward am ddod atom ac i bawb a gefnogodd yr achlysur.

Ar hyn o bryd y mae trafodaethau ar y gweill i geisio sefydlu Gofalaeth Bro rhwng rhyngom ni a Seion Aberystwyth sef dau gapel Annibynwyr a Horeb Penrhyn-coch, a Bethel Aberystwyth, ar ran y Bedyddwyr. Bore Dydd Mercher 13eg Tachwedd rhwng 10.30 a 12.00 yn festri Bethel Stryd y Popty byddwn yn cynnal y cyntaf o gyfres o foreau Coffi rhwng y pedair eglwys er mwyn i ni ddod i adnabod ein gilydd ac i gymdeithasu. Bydd croeso cynnes i bawb sy'n rhydd i ddod. Y bwriad yw cynnal bore coffi bob chwarter ym mhob capel yn ei dro felly edrychwn ymlaen at groesawu ein cyfeillion o Aberystwyth a Phenrhyn-coch atom i Bethel yn ystod y flwyddyn.

Ni fydd oedfa yn y capel fore Sul y Cofio, 10 Tachwedd. Cynhelir gwasanaeth yn y Neuadd Goffa am 10.45. Mae croeso cynnes i bawb fynychu'r oedfa gymun a gynhelir am 2.00 prynhawn Sul 24 Tachwedd pan fydd y Parchedig John Tudno Williams yn arwain yr addoliad.

*DPD*






# Clwb Hen Beiriannau



## Am y Copa

Ar 13eg o Hydref cerddodd saith aelod o'r clwb i ben Cadair Idris gyda'r bwriad o godi arian tuag at fudiad Beiciau Gwaed Cymru.

Mae Beiciau Gwaed Cymru yn elusen wirfoddol 100% wedi'i lleoli yng Nghymru, sy'n darparu gwasanaeth negesydd rhad ac am ddim i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Cychwynnodd y mudiad Beiciau Gwaed yn Llundain yn ystod y 1960au lle cafodd ei gydnabod mai'r ffordd gyflymaf i fynd drwy draffig oedd ar feic modur. Ambell waith, nid oes gan ysbytai y gwaed cywir ar gyfer y math o waed sydd gan y claf, neu mae ganddyn nhw'r gwaed cywir yn y lle anghywir. Dyma le y gall Beiciau Gwaed Cymru helpu.

Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim a gwirfoddolwyr sy'n cynnal y gwaith, ac wrth reswm mae angen tipyn sylweddol o arian i gadw popeth i fynd.

Cawsom dywydd hyfryd i gerdded i'r copa. Dewisom y llwybr sy'n cychwyn ym Minffordd. Dyma'r llwybr anoddaf ond mae'r olygfa o Benygadair yn werth ei gweld. Mae modd dewis llwybrau haws o ochr Dolgellau o'r mynydd.

Yn ôl yr hanes bu rywrai yn cynnig lluniaeth ysgafn a phaned o dê ar ben Cadair Idris ar un adeg. Credaf fod hyn yn arfer sy'n mynd yn ôl dros gan mlynedd. Mae gweddillion lle tân i'w gweld o hyd ar y ffordd i'r copa. Tybed a oes cysylltiad â'r gwasanaeth hwn? Byddwn yn datgan y swm a godwyd maes o law. Dyma elusen sydd gwerth ei chefnogi maen cvyfnod lle mae angen pob help llaw ar ein Gwasanaeth Iechyd.

*John Evans*

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760



# Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch

Ar ddydd Iau 24ain Hydref aeth criw o'n haelodau allan am bryd o fwyd hanner dydd i Aberista ar gampws Coleg Ceredigion. Mae'r bwyty hyfforddi ar agor i'r cyhoedd ac yn cynnig bwyd a diodydd o ansawdd uchel am brisiau fforddiadwy. Ynghyd â gwasanaethau amser cinio, mae Aberista yn cynnal amrywiaeth o nosweithiau thema trwy gydol y flwyddyn.

Trwy wasanaethu cwsmeriaid go iawn mewn amgylchedd proffesiynol, mae'r dysgwyr yn datblygu ystod o sgiliau cyflogadwyedd, sy'n eu paratoi ar gyfer byd gwaith. Mae'r myfyrwyr a'r staff addysgu wedi ennill gwobrau am eu sgiliau coginio a gweini bwyd ar lefel leol a chenedlaethol.

Cyn dechrau ar y gwledda croesawyd ni gan Aileen a chafwyd ychydig o ohebiaeth gan Falyri. Cawsom bryd tri chwrs wedi ei goginio'n fendigedig gan y myfyrwyr, rhai ar eu blwyddyn cyntaf yn y coleg. Cafwyd bwyd bendigedig a phawb wedi mwynhau. Trefnwyd y digwyddiad gan Aileen talwyd y diolchiadau ar ran yr aelodau gan Betty.

*Betty Jenkins*

# Teulu'r Parchedig David Sinnett Jones

Pan oeddwn yn paratoi'r gyfrol Pobol y Topie byddwn yn ceisio cynnwys llun o bob gwrthrych i gydredeg gyda'r ysgrif. Llwyddais gan amlaf i briodi'r ddau, ond yn achos un o ficeriaid Elerch, sef David Sinnett Jones (1863–1927), methais yn lan â dod o hyd i lun ohono. Bu Sinnett Jones yn offeiriad Elerch rhwng 1911 a 1927 gan fyw yn y Ficerdy, Bont-goch.

Fodd bynnag, yn ddiweddar rhoddwyd casgliad o luniau a nodiadau am y teulu yn rhodd i Archifdy Ceredigion gan berthynas iddo, sef Colin Burleigh, sy'n byw yn ardal Trisant. Mae Colin yn or-ŵyr i Elinor Lizzie Steward (née Murray), a oedd yn chwaer i Florence Mary Murray a briododd Sinnett Jones yn 1909.



Erbyn hyn, deallaf fod disgynyddion uniongyrchol iddynt yn ffermio Blaeneifed yn ardal Llangoedmor, ger Aberteifi.

Ymhlith y papurau a roddwyd i'r Archifdy mae nifer o ffotograffau cynnar a diddorol o'r teulu, yn eu plith llun priodas David a Florence, llun o'r merched Mary a Winifred yn ogystal â llun o'r ficer yn hamddena wrth bysgota yng Nghraig y Pistyll.

*Richard E. Huws*

# Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Mae'r cytundeb cynnal a chadw newydd ar gyfer mannau gwyrdd ardal Ceulanamaesmawr wedi'i lunio. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau yw 20 Ionawr 2025. Mae'r manylion i'w gweld yn yr hysbysfyrddau, ond cysylltwch â'r Clerc os hoffech gael rhagor o wybodaeth: CyngorCMM@gmail.com

Cafodd dau gynnig eu rhoi gerbron y Cyngor i'w hystyried yn y cyfarfod diwethaf, sef:

i) *Mae Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr yn cefnogi ymdrechion Cyngor Sir Ceredigion i lobïo am fformiwla ariannu tecach i sicrhau gwasanaethau gwell i'r sir.*

ii) *Mae Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol i ddatganoli'r rheolaeth dros yr holl asedau sydd ym meddiant Stad y Goron yng Nghymru ac oddi ar ei harfordir i Lywodraeth Cymru. Galwa yn ogystal am i lif refeniw'r asedau hyn ddod yn llwyr i goffrau Llywodraeth Cymru ac i Lywodraeth Cymru feddu ar yr hawl i'w defnyddio fel y dymuna.*

Pasiwyd y ddau gynnig yn unfrydol.

Bu cynrychiolwyr o'r Cyngor yng nghyfarfod Grŵp Cyd-ddylunio Dalgylch Leri ganol mis Hydref, pan drafodwyd dulliau posibl o atal llifogydd yn yr ardal. Y gobaith yw y bydd trigolion lleol yn barod i gymryd camau priodol, ac y byddant yn cael eu digolledu am wneud hynny.

Gan y dylai diffibrilwyr gael eu lleoli o leiaf 500 m ar wahân, mae hyn yn golygu bod y rhai sydd wrth y Llew Gwyn a ger Tŷ Twt yn Nhal-y-bont yn bodloni'r gofynion. Felly, bydd y trydydd diffibriliwr yn cael ei symud i'r ciosg yng Nghwm Eleri yn fuan.

Cofiwch am wasanaeth Sul y Cofio, a gynhelir ar 10 Tachwedd am 10.45am yn y Neuadd Goffa.

Bydd goleuadau'r Goeden Nadolig yn cael eu cynnau ar 5 Rhagfyr am 4.30pm. Dewch i'r Patshyn Glas i ganu carolau a mwyhau'r lluniaeth. Diolch yn fawr i Enoc Jenkins am drefnu'r goeden unwaith eto eleni.

Ymgyrch Cae Bach: Yn anffodus, bu'n rhaid gohirio noson 'Sigla dy Gwt' tan y flwyddyn newydd – cyfle i chi losgi ychydig o galorïau ar ôl dathliadau'r Nadolig! Fodd bynnag, bydd Noson Bingo yn cael ei chynnal yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ar 11 Rhagfyr, gyda'r drysau'n agor am 6.30pm a'r gêm gyntaf yn dechrau am 7 o'r gloch. Bydd lluniaeth ar gael fel arfer. Noddir y noson gan gwmni Ani-bendod. Dewch yn llu!

Ac yn olaf – llongyfarchiadau i enillwyr Clwb 200 mis Hydref:
1$^{af}$ (£50): 15, Ifor Jones
2$^{il}$ (£20): 172, Yvette Evans
3$^{ydd}$ (£10): 8, Kate January McCann

# Y Gair Olaf



Cefais y profiad rhyfedd rhyw fis yn ôl o gyfarfod cefnder cyntaf nad oeddwn yn gwybod am ei fodolaeth. Kevin oedd ei enw ac roedd yn byw yn Anchorage, Alaska. Roedd ei dad-cu, Johnnie yn frawd i Dad ac roedd Kevin felly yn berthynas gwaed. Cafodd ei fabwysiadu yn fabi a chael ei fagu mewn teulu caredig a chefnogol. Mae'r stori nawr yn troi at gefnder arall, William sy'n byw yng Nghaerdydd. Roedd William a'i wraig wedi llunio coeden deulu ac wedi olrhain y llinach i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gwelodd Kevin y manylion ar y we a thrwy rym Ancestry DNA dod i sylweddoli fod yr enwau ar y sgrin yn aelodau o'i deulu naturiol. Daeth Kevin i Gymru, mynd i fwthyn y teulu, Blaenffynnon Tegryn, ymweld â chapel Llwynyrhwrdd a sefyll wrth feddau ei gyn-deidiau yn y fynwent. Cawsom ginio hyfryd yn ei gwmni yn Gwbert ac ar derfyn y pryd holais am ei adwaith o gwrdd â chlwstwr o gefndryd newydd. Daeth yr ymateb ar unwaith, "now I know who I really am."


Yn ystod eleni rydym wedi bod yn dathlu yn Nhal-y-bont. Canmlwyddiant y neuadd, hanner canrif o Papur Pawb a blwyddyn nesaf daw cyfle i ddathlu pum degfed penblwydd y gangen leol o Merched y Wawr. Adeilad a dau sefydliad ond pobol oedd a sy'n sail i'r tri. Pobol gasglodd y pres i godi'r neuadd, seiri a gofaint rhoddodd yn cyfan yn ei le, trawst wrth drawst, carreg wrth garreg. Y golygydd a'i dîm sy'n sicrhau fod y papur yn ymddangos yn fisol a chriw dygn o ferched benderfynodd sefydlu'r gangen. Mae'r cyfan yn rhan o wead ein hanes cyfoethog ac yn datgan yn glir pwy ydym ni.

"Now I know who I really am." Does dim byd yn dod o ddim.

*Geraint Evans*





Grant Mayhew Ltd
GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL

01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

Garej Davmor
Petrol, Diesel, MOT, Gwasanaethau a Thrwsio
Bwyd poeth ac oer ar gael. Siop gyfleustra drwyddedig
Ebost: davmorgarage@hotmail.com
Ffôn: 01970 832278


# Chwaraeon a Hamdden

## Hanner Marathon Caerdydd




Ymhlith y 27,000 o redwyr oedd wrthi'n calampo o gwmpas strydoedd y brifddinas ar ddechrau Hydref eleni roedd Sam ac Elen Ebenezer o Dal-y-bont. Mae Elen wedi ymgartrefu erbyn hyn yn Bryn, sef cartref y diweddar Kathleen Richards, un o ohebyddion ffyddlonaf Papur Pawb gynt. Croeso mawr i ti Elen ac i Alffi bach hefyd.

Gwibiodd y ddau o gwmpas y llwybr gan wneud amseroedd hynod gystadleuol, gydag Elen yn gorffen mewn 1.54 awr a Sam wrth ei chynffon mewn 1.55awr. Amseroedd penigamp yn wir, llongyfarchiadau i chi'ch dau.

Gwelwyd cip sydyn ar nifer o drigolion yr ardal yn hedfan heibio, yn eu plith Garmon Nutting, Ty Hen Henllys a Paul Williams, Rheolwr argraffu'r Lolfa. Os hoffech anfon neges atom yn nodi eich amser byddem yn fwy na pharod i gynnwys eich manylion yn rhifyn nesaf y Papur.

## Marathon Eryri




Ar Ddydd Sadwrn 26ain Hydref cynhaliwyd y 40fed Marathon Eryri ym mhentref Llanberis, wrth droed Yr Wyddfa. Ymhlith a rhai a fu'n rhedeg oedd Elaine Rowlands, Maes-y-felin, Tal-y-bont.

Roedd y tywydd ar y diwrnod bron yn berffaith, dechrau oer ond roedd yr haul yn gwenu.

Dywedodd Elaine 'Roedd hi'n oer iawn ar ben Bwlchygroes ond roedd y golygfeydd draw tuag at Ynys Môn yn gwneud iawn am yr oerfel. Mae gorsaf fwydo i'r holl redwyr ar y brig sy'n cynnig te a chacen. Roedd y llwybr glaswelltog serth iawn i lawr i Lanberis yn llithrig iawn, ond roeddech chi'n gallu clywed y torfeydd a'r llinell derfyn yn bloeddio ar eich ffordd i lawr, a helpodd hynny llawer.'

Gorffennodd Elaine y marathon mewn 4 awr a 42 munud – y pedwerydd tro iddi ei chwblhau, y tro olaf yn 2018. Mae Elaine yn dweud mai dyma'r marathon gorau mae hi erioed wedi'i wneud ac mae'r gefnogaeth ar hyd y llwybr cyfan yn anhygoel ac y bydd aros i weld a yw hi byth yn ei wneud eto!

Llongyfarchiadau mawr i ti Elaine!

## Digwyddiadau RSPB Ynys Hir

**Crefftau Nadolig Naturiol i Blant**
Dydd Sadwrn 30 Tachwedd 1:30-3:00pm: Addas ar gyfer plant 4-12 oed. **Cost £5/plentyn £2/oedolyn**

**Gweithdai Torch Helyg y Gaeaf**
3 sesiwn ar gael: Dydd Mercher 4 Rhagfyr 6-8pm yn y Ganolfan Ymwelwyr / Dydd Sadwrn 7 Rhagfyr 10am-12pm a 1pm-3pm
**Cost £35 y person. Ar gyfer pob digwyddiad archebwch ar-lein https://events.rspb.org.uk/ynys-hir. Ymholiadau 01654 703184.**

**Arwerthiant Crefft**
**Canolfan Ymwelwyr Ar agor Dydd Mercher-Dydd Sul 10am-4pm**

## Milltir Oer



Profodd Helen Ovens o Daliesin ddyfroedd Llyn Mwyngil fis diwethaf, gan nofio'r 'Filltir Oer'. Dysgwyd Helen sut i nofio'r dull rhydd yn gywir chwe mlynedd yn ôl gan Pete Jenkins o Bronygan, Tal-y-bont, a roddodd yr hyder iddi nofio pellteroedd hirach yn yr awyr agored mewn pob math o leoliadau ledled y DU, a hyfforddi i fod yn nofiwr/hyfforddwr yn gwirfoddoli i Glwb Nofio Amatur Aberystwyth a'r Cylch (ADASC). Mae Helen wedi nofio mewn digwyddiadau ledled Prydain ac Iwerddon ac yn fwyaf diweddar, o gwmpas Tresco, un o Ynysoedd Sili, fis diwethaf. Meddai Helen 'Roedd llai o slefrod môr yn Llyn Mwyngil, a dyna'r lleoliad mwyaf rhyfeddol, er gwaethaf y dŵr oer!'

## Llewyrch yr Arth



Yn dilyn ffrwydriad ar yr haul mae'r hyn a ddaw i'n daear yn teithio ar gyflymdra o filiwn a hanner o filltiroedd yr awr (1,000,5000mya)! Wrth daro'n atmosffer creir y lliwiau arallfydol yma. Llun o Bentrebach sydd â golwg glir tua'r gogledd dros y Taranau gyda rhan o Aberdyfi yn y pellter.